Cyfeithiad / translation

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn 2016-2026

Eitem:- Cynllun Adnau Rhan 2 - Mapiau

Cyf ID 1824 - Tudalen 111 - Map 118 - Bryn Du

Ynglŷn â - Caniatâd Cynllunio i 12 Tŷ Fforddiadwy a roddwyd yn 2014 er ei fod yn rhan o'r CDLl ar y Cyd 2016-2026.

=====================================================================

Mae fy natganiadau blaenorol ar yr eitem hon yn parhau i fod yn wir a chywir.

Mae'r sylw hwn yn dangos graddau'r ansicrwydd difrifol sy'n bodoli yn y CDLl ar y Cyd a gyflwynwyd, a'r ystyriaethau annigonol a roddwyd i ddarpariaeth a lleoliad Tai Fforddiadwy yn Ynys Môn, ynghyd â chanlyniadau difrifol lleoli Tai Fforddiadwy sydd heb fantais gwasanaethau a chyfleusterau digonol.

Dywedais yn fy nghyflwyniad cynharach fod Cyngor Sir Ynys Môn, (CSYM), a'r CDLl ar y Cyd yn darparu canllaw ar leoliad Tai Fforddiadwy gan ddatgan y dylid eu lleoli mewn aneddiadau lle ceir cyfleusterau cyhoeddus i'w cefnogi.

Yn hollol groes i'r canllaw yma, mae Bryn Du yn bentref llinellog sylweddol tua 1 km o hyd ac fe amcangyfrifir fod yno dros 100 annedd, rhwng Eglwys Llanfaelog a gorsaf Reilffordd Tŷ Croes (sy'n darparu gwasanaeth cyfyngedig prin sy'n golygu ei fod yn anaddas i'w ddiben).

Dengys y datganiad i'r wasg a gyflwynwyd gan Gymdeithas Dai Grŵp Cynefin ac Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn ar y 26 Mai 2015 ar ddechrau'r gwaith i adeiladu 12 Tŷ Fforddiadwy a neilltuwyd i Fryn Du pa mor bell mae'r cyrff hyn o Ganllaw eu Cyngor eu hunain a'r byd go iawn:-

*“ Mae Grŵp Cynefin yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau tai Cyngor Môn i ddatblygu pedwar safle ar raddfa fach ym Mryngwran, Bodedern, Caergybi a Llanfaelog.*

*Cyhoeddwyd y pedwar datblygiad yn ystod ymweliad ag un o'r safleoedd, datblygiad Bryn Du yn Llanfaelog, sy'n cynnwys chwe tŷ (3 llofft) a chwech o dai llai (2 lofft).*

Cyfeithiad / translation

*Nodwyd yr angen am y tai yn ardal Llanfaelog gan Swyddog Galluogi Tai Gwledig Ynys Môn, sy'n gweithio gyda'r cynghorau cymuned i asesu anghenion tai yn eu hardal.*

*Defnyddiwyd yr wybodaeth wedyn gan Grŵp Cynefin i gyflwyno cynlluniau addas i'w hystyried gan wasanaethau tai Cyngor Ynys Môn, fel rhan o broses y rhaglen strategol i ddatblygu tai fforddiadwy i'r Ynys.*

*Dywedodd Rhys Dafis, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Adfywio Grŵp Cynefin: "Os yw cymunedau gwledig i ffynnu mae angen i bobl leol fedru byw yno gan gefnogi'r siopau a'r ysgolion a chyfleusterau eraill yn yr ardal. Ein nod yw darparu cartrefi fforddiadwy sy'n cyfateb i'r hyn mae'r gymuned ei angen.*

*Mae gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol a'r Swyddogion Galluogi Tai Gwledig yn sicrhau fod datblygiadau o faint priodol ac ehangder yn cael eu darparu gyda golwg ar gynaliadwyedd i'r dyfodol yn ogystal â'r angen presennol.*

*"Mae'r pedwar datblygiad raddfa fechan yma wedi eu teilwra i fod yn addas i'w cymunedau ac maent yn rhan o ymrwymiad Grŵp Cynefin i gefnogi ffyniant cymunedau gwledig yn y dyfodol yng ngogledd Cymru."*

---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

*(DIWEDD).*

<u>Gwasanaethau - Bysiau</u>

Yn wir nid oes gan Fryn Du unrhyw wasanaethau a chyfleusterau defnyddiol o gwbl oni bai am wasanaeth trên cyfyngedig o Orsaf Drenau Tŷ Croes.

Mae yna wasanaeth bws cyfyngedig gan Arriva sef # 25 sydd ond yn darparu:-

Pedwar gwasanaeth y dydd ar y bws Arriva # 25 o Gaergybi i Aberffraw

a phum gwasanaeth y dydd ar y bws Arriva #25 o Aberffraw i Gaergybi.

Nid yw'r un o'r gwasanaethau hyn o unrhyw gymorth i gael plant i'r ysgol ar amser.

Nid yw gwasanaeth bws #25 Caergybi i Aberffraw o ddim cymorth i weithwyr i gyrraedd adref o Gaergybi ar ôl 15:25.

Nid yw gwasanaeth bws #25 Aberffraw i Gaergybi o ddim cymorth i weithwyr i gyrraedd eu gwaith yng Nghaergybi cyn 10:40 ac mae angen newid bws yn y Fali ar gyfer hyn.

Nid oes ysgol gynradd ym Mryn Du. Mae'r ysgolion cynradd agosaf yn Pencarnisiog a Rhosneigr. Mae bws Arriva #25 o Aberffraw i Gaergybi yn gadael Bryn Du am 08:13 gan gyrraedd Pencarnisiog am 08:15 - sydd yn gynnar iawn i blant bach.

Gweler copi o Amserlen Bws Arriva #25 sydd yn amgaeedig.

**---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------**

**<u>Gwasanaethau eraill</u>**

Nid oes unrhyw fanciau, siopau na swyddfa bost ym Mryn Du. Mae bob gweithgaredd domestig drwy gydol y dydd yn gorfod dibynnu ar gymorth i deithio mewn car.

Nid oes unrhyw Doiledau Cyhoeddus.

Dylid nodi fod Grŵp Cynefin wedi darparu mannau parcio i ddau gar ymhob un o'r 12 Tŷ Fforddiadwy yn eu datblygiad ym Mryn Du. Mae hyn yn cadarnhau eu hasesiad o Fryn Du fel man heb gyfleusterau ac felly mae angen i'r trigolion fod â char.

Mae'r clwstwr agosaf sydd ag unrhyw gyfleusterau siopau defnyddiol yn Llanfaelog ym mhen gogleddol y pentref.

Y pentref arfordirol agosaf nesaf (ddim yn Ganolfan Wasanaeth Drefol) yw Rhosneigr sydd ag Ysgol Gynradd a rhai siopau. Amcangyfrifir fod y pentref tua 5 milltir i ffwrdd ac nid oes modd cyrraedd yno mewn bws.

Mae Cyf ID - gan Ddŵr Cymru - Map 118 - Bryn Du yn cadarnhau fod Bryn Du yn cael ei wasanaethu gan Waith Trin Dŵr Gwastraff Rhosneigr a bod y gwaith presennol yn gallu cynnwys llif dŵr gwastraff budr o Fryn du. Tybir fod hyn yn cadarnhau fod y dŵr gwastraff budr a ddaw o'r 12 Tŷ Fforddiadwy yn Stad Tai Fforddiadwy Grŵp Cynefin y sonnir amdanynt yma, yn cael ei drin gan y gwaith yma.

---

**Cyfleusterau Adloniant i Blant**

Nid oes unrhyw gyfleusterau adloniant cyhoeddus i blant ym Mryn Du. Mae'r 12 Tŷ Fforddiadwy ar Stad Tai Fforddiadwy Grŵp Cynefin wedi eu hadeiladu ar dir a neilltuwyd yn flaenorol, gan ddau Hysbysiad Cyhoeddus ac wedi ei warchod gan ffens derfyn gyda giât lydan i fod yn Gae Chwarae Cyhoeddus i blant o faint sylweddol ar ardal o tua 1.5 erw.

Yn wir, cafodd y cae chwarae ei anghofio ac ni chafodd ddigon o adnoddau. Ni wnaeth CSYM hyd yn oed dorri'r glaswellt yn gyson i sicrhau fod modd defnyddio'r cae yn rheolaidd.

Gosodwyd y cyfleuster hamdden yma, wrth adael yr hysbysiadau cyhoeddus yn eu lle ar y maes chwarae, i ffermwr ar gyfer ei bori.

Mae hyn yn dangos esgeulustod o anghenion pobl ifanc a diffyg pryder am les plant yn gyffredinol.

**Nid oes ryfedd felly fy mod i'n dod i'r casgliad fod penderfyniadau CSYM a'r camau gymerwyd gan Grŵp Cynefin mewn ymateb i CDLl ar y Cyd DDIM YN GADARN.**

Dr Thomas Conway a Mrs Barbara Conway

1116 gair.

---

Copi:- **Amserlen Bws Arriva #25**

## Caergybi/Holyhead - Aberffraw — Eifion's Coaches 25

**Dydd Llun i ddydd Sadwrn** — o/from 25/3/13 — **Monday to Saturday**

| | | | | | VHS | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle Bws Summer Hill Bus Stop, Caergybi/Holyhead** | 0730 | 0915 | 1115 | 1325 | 1525 | 1700 |
| TESCO | ----- | ----- | 1121 | 1331 | 1531 | ----- |
| Penrhos (Brantano) | ----- | ----- | 1123 | 1333 | 1533 | ----- |
| Penrhos (Morrisons) | ----- | ----- | 1124 | 1334 | 1534 | ----- |
| Y Fali/Valley Garth y Felin | 0737 | 0922 | 1128 | 1338 | 1538 | 1707 |
| Y Fali/Valley Xrds 'A' | 0738 | 0923 | 1129 | 1339 | 1539 | 1708 |
| Caergeiliog Tre Ifan | 0740 | 0925 | 1131 | 1341 | 1541 | 1710 |
| Bryngwran | 0745 | 0930 | 1136 | 1346 | 1546 | 1713 |
| Engedi | 0748 | 0933 | 1139 | 1349 | 1549 | ----- |
| Pencaernisiog | ----- | ----- | ----- | ----- | 1554 | ----- |
| Safle Bws Pencaernisiog A4080 Bus Stop | ----- | 0938 | 1144 | 1354 | ----- | ----- |
| Bryn Du | ----- | 0941 | 1147 | 1357 | 1557 | ----- |
| Llanfaelog | 0753 | 0942 | 1148 | 1358 | 1558 | ----- |
| Gorsaf Rhosneigr Station | ----- | 0944 | 1150 | 1400 | 1600 | ----- |
| Cloc Rhosneigr Clock | ----- | 0946 | 1152 | 1402 | 1602 | ----- |
| **Aberffraw** | 0800 | 0954 | 1200 | 1410 | 1610 | ----- |

Siwrna' ychwanegol/Additional journey

| | |
|---|---|
| Bryngwran | 1713 |
| Gwalchmai | 1716 |
| Mona Depot Mona | 1719 |

TravelineCymru
0300 200 22 33
www.traveline.cymru



## Aberffraw - Caergybi/Holyhead — Eifion's Coaches 25

**Dydd Llun i ddydd Sadwrn** — o/from 25/3/13 — **Monday to Saturday**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aberffraw** | ----- | 0800 | 0955 | 1201 | 1411 | 1611 |
| Cloc Rhosneigr Clock | ----- | 0808 | 1003 | 1209 | 1419 | 1619 |
| Gorsaf Rhosneigr Station | ----- | 0810 | 1005 | 1211 | 1421 | 1621 |
| Llanfaelog | ----- | 0811 | 1007 | 1213 | 1423 | 1623 |
| Bryn Du | ----- | 0813 | 1008 | 1214 | 1424 | 1624 |
| Pencaernisiog | ----- | 0815 | ----- | ----- | ----- | ----- |
| Safle Bws Pencaernisiog A4080 Bus Stop | ----- | ----- | 1011 | 1217 | 1427 | 1627 |
| Engedi | ----- | 0820 | 1016 | 1222 | 1432 | 1632 |
| Bryngwran | 0713 | 0823 | 1019 | 1225 | 1435 | 1635 |
| Caergeiliog Tre Ifan | 0715 | 0828 | 1024 | 1230 | 1440 | 1640 |
| Y Fali/Valley Xrds 'C' | 0717 | 0830 | 1026 | 1232 | 1442 | 1642 |
| Y Fali/Valley Garth y Felin | 0718 | 0831 | 1027 | 1233 | 1443 | 1643 |
| Penrhos (Brantano) | ----- | ----- | 1031 | 1237 | 1447 | 1647 |
| Penrhos (Morrisons) | ----- | ----- | 1032 | 1238 | 1448 | 1648 |
| TESCO | ----- | ----- | 1034 | 1240 | 1450 | 1650 |
| **Safle Bws Stryd y Farchnad/Market Street Bus Stop** | ----- | 0839 | 1040 | 1246 | 1456 | 1656 |
| **Safle Bws Summer Hill Bus Stop, Caergybi/Holyhead** | 0726 | ----- | ----- | ----- | ----- | ----- |

Siwrna' ychwanegol/Additional journey

| | |
|---|---|
| Mona Depot Mona | 0705 |
| Gwalchmai | 0710 |
| Bryngwran | 0713 |

Am y côd ar dudalen 26 gweler tudalen 87 / For the code on page 26 see page 87